# Pwyllgor y Ty

## HC(2)-09-05(p3)

### 20 Hydref 2005

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Adroddiad Blynyddol ar Hybu Cyfle Cyfartal

### Diben

1. I ddarparu drafft ar gyfer Pwyllgor y T o adroddiad oddi wrth Glerc y Cynulliad ar hybu cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad.

### Cefndir

2. Yn ôl Adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru mae'n rhaid i'r Cynulliad wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y parch sy'n ddyledus yn cael ei roi i egwyddor cyfle cyfartal i bawb. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn gofyn bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd.

### Yr Adroddiad Ar Gyfer 2004-05

3. Hwn fydd y chweched adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb a bydd yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol 2004-05. Bydd pedair adran i brif ran yr adroddiad:

- adroddiad Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ei weithgarwch yn y flwyddyn ariannol 2004-05;
- adroddiad gan Y Trefnydd ar drefniadau cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- adroddiad ar wahân gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar faterion staffio corfforaethol sydd yn gysylltiedig â hybu cydraddoldeb;
- adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar hybu cyfle cyfartal ym materion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

Mae'r bedwaredd ran yn berthnasol i Bwyllgor y T ac fe'i hatodir yn Atodiad 1

### Ufuddhau

4. Canlyniad adrannau 48 a 120 Deddf Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid i'r Cynulliad weithredu ac ymdrin â'i fusnes "with due respect to the principle that there should be equality of opportunity for all people."

## Goblygiad Arianol

5. Mae'r ddogfen yn edrych yn ôl ar weithgarwch a fu yn ystod 2004-05 i hybu cyfle cyfartal ym musnes Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae cyllideb GSC wedi cyfrif y gweithgarwch yma'n barod.

## Aregymelliad

6. Yn ôl yr amserlen, bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn trafod adroddiad 2004-2005 yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2005. Hefyd, gofynnir i Bwyllgor y T gytuno fod yr atodiad yn gyfraniad priodol gan Glerc y Cynulliad ar ran GSC.